

Theatr
Genedlaethol
Cymru
PRYD MAE'R HAF?
(CHRISTMAS IS MILES AWAY)
GAN / BY Chloë Moss
TROSIAD GAN / TRANSLATED BY Gwawr Loader

Elin Philips a Gwawr Loader sy'n cyd-redeg Criw Brwd, cwmni theatr dwyieithog yng Nghaerdydd, sydd â'i wreiddiau yn y cymoedd. Blodeuodd cyfeillgarwch rhwng Elin a Gwawr wedi blynyddoedd o gyd-weithio ar sioeau theatr amrywiol. Mae'r ddwy wedi bod yn ffodus o gael perfformio yn rhai o theatrau mwyaf Cymru ac erbyn hyn maent wedi penderfynu sefydlu eu cwmni eu hunain i roi platfform i leisiau a straeon cymunedau cymoedd de Cymru ar lwyfannau'r wlad.

Mae'r ddwy wrth eu bodd bod *Pryd Mae'r Haf?* yn cael adfywiad wedi'r siom o orfod canslo taith ledled Cymru yn 2020. Mae bod yn rhan o gynhyrchiad sy'n cael ei ffrydio'n fyw, o ganolfan fel Yr Egin, yn fraint. Maent yn ddiolchgar i staff Theatr Genedlaethol Cymru am eu haelioni a'u gwaith caled ac i'w partneriaid, Theatr Soar a The Other Room, am barhau â'u cefnogaeth, flwyddyn yn ddiweddarach! Mae cael cwmni Tinopolis wrth y llyw gyda'r darlledu yn destun balchder i Criw Brwd a bu'r profiad o gydweithio gyda'r tîm cyfan yn bleser.

Elin Philips and Gwawr Loader are responsible for Criw Brwd, a bilingual theatre company which is based in Cardiff, but has its roots in the south Wales valleys. Elin and Gwawr have formed a close friendship, having worked together for several years on a variety of theatre shows. Both have been fortunate enough to have performed in some of Wales's main theatres and have now taken the decision to form their own company to give a platform to the voices and stories of communities in the south Wales valleys in venues throughout Wales.

Both Elin and Gwawr are delighted that *Pryd Mae'r Haf?* is being revived, following the disappointment of having to cancel the tour around Wales in 2020. Being part of a production that is being live streamed from a venue such as Yr Egin is a great privilege. Both are grateful to the staff of Theatr Genedlaethol Cymru for their generosity and hard work and to their partners, Theatr Soar and The Other Room, for continuing their support, a whole year later! Criw Brwd are proud to have a company such as Tinopolis in charge of the broadcast, and working with the whole team has been a real pleasure.

Nod Theatr Genedlaethol Cymru yw rhoi theatr Gymraeg wrth galon y genedl, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ry'n ni wedi gweithio'n galed i symud ein gwaith i blatfformau digidol er mwyn dod â phrofiadau theatr i'n cynulleidfaoedd, er gwaethaf y cyfyngiadau.

Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i ni addasu ar gyfer y sgrin ddarn o theatr a grëwyd yn wreiddiol ar gyfer y llwyfan – a hynny mewn modd diogel gyda chast, tîm creadigol a chriw llwyfan mewn ymarferion wyneb yn wyneb yn Yr Egin, canolfan S4C yng Nghaerfyrddin. Ry'n ni'n falch iawn o gydweithio unwaith eto gyda Criw Brwd i gyflwyno'r cynhyrchiad hwn ac i'w cefnogi wrth iddynt roi llwyfan i leisiau Cymraeg y Cymoedd. Ry'n ni hefyd yn falch iawn o'r cyfle hwn i gydweithio gyda The Other Room, Caerdydd, a Theatr Soar, Merthyr Tudful, sydd wedi cefnogi'r cynhyrchiad ers y cychwyn cyntaf. Mae'n wych hefyd i weithio gyda thîm arbenigol Tinopolis i'n helpu i wireddu'r uchelgais o ffrydio'r cynhyrchiad hwn yn fyw i'n cynulleidfaoedd.

Diolch o galon i bawb sydd wedi rhannu yn y daith anarferol hon i gyflwyno'r ddrama arbennig yma – ac i chi, y gynulleidfa, am eich cefnogaeth.

The aim of Theatr Genedlaethol Cymru is to place Welsh theatre at the heart of the nation, and during the past year we've worked hard to move our work onto digital platforms in order to bring theatre experiences to our audiences, despite the restrictions.

However, this is the first time we've adapted for the screen a piece of theatre that was originally created for the stage – and we've done that in a safe way with the cast, creative team and stage crew in face-to-face rehearsals at Yr Egin, S4C's centre in Carmarthen. It has been a pleasure to work once again with Criw Brwd to present this production and to support them as they give a platform for the Welsh voices of the Valleys. We are also very pleased to have this opportunity to work with The Other Room, Cardiff, and Theatr Soar, Merthyr Tydfil, who have supported the production from the very beginning. It's also fantastic to work with the expert team from Tinopolis to help us realise the ambition of streaming this production live to our audiences.

We'd like to extend our heartfelt thanks to all those who have shared in this unusual journey to present this special play – and to you, the audience, for your support.

Mae The Other Room yn dŷ cynhyrchu o safon byd-eang, ac yn creu theatr unigryw a llawn gweledigaeth sy'n annhebyg i unrhyw beth arall sydd ar gael ym mhrifddinas Cymru. Mae'n ofod bychan lle caiff artistiaid ifanc ryddid i fentro; sy'n dathlu Cymru fel cenedl ddwyieithog; a lle mae dramâu Cymraeg newydd yn mynd ben-ben â'r dramâu modern mwyaf cyffrous.

The Other Room, a sefydlwyd yn 2014, yw'r theatr dafarn gyntaf yng Nghymru, a'r unig un o'i bath yn y wlad. O fewn y gofod a adeiladwyd yn bwrpasol yn Porter's Bar, Caerdydd, rydym yn cyflwyno rhaglen drwy gydol y flwyddyn ac yn cynhyrchu a churadu ystod eang o ddramâu modern. Fel lleoliad bychan, agos-atoch, gyda dim ond 47 o seddau, gallwn gynnig i'n cynulleidfaoedd brofiad o theatr fyw ac iddo angerdd na all unrhyw leoliad arall yng Nghaerdydd ei gynnig.

The Other Room is a world-class producing house, making visionary, distinctive theatre like nothing else in the Welsh capital. It is a small space where young artists have the freedom to take big risks; that celebrates Wales as a bilingual nation; and where new Welsh plays go toe-to-toe with the most exciting modern drama.

Founded in 2014, The Other Room is Wales' first and only dedicated pub theatre. Within our purpose-built space in Porter's Bar Cardiff, we present a year-round programme where we produce and curate a wide range of modern drama. We are an intimate theatre of just 47 seats, and we bring audiences back to the live experience with an intensity no other venue in Cardiff offers.

Etifeddiaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Merthyr Tudful 1987, yw ein Canolfan Gymraeg. Sefydlwyd y Ganolfan yn hen festri Capel Soar yn 1991 a datblygodd Menter Iaith Merthyr Tudful gynllun i drawsnewid y Capel yn theatr gymunedol ac adnewyddu'r hen Ganolfan Gymraeg i fod yn gartref i holl bartneriaid Cymraeg yr ardal.

Agorodd Theatr Soar ei drysau gyda pherfformiad Ysgol Rhydywaun o *Les Misérables* ym mis Chwefror 2011. Ein nod yw sicrhau llais a llwyfan i'n cymuned er mwyn codi hyder ac ennyn perchnogaeth o'r celfyddydau, yr iaith Gymraeg a Theatr Soar.

Mae'n fraint cael gweithio mewn partneriaeth gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Criw Brwd a The Other Room i wireddu breuddwyd un o 'blant' Soar, Gwawr Loader. Mae Gwawr, un o dîm Criw Brwd, wedi bod yn rhan o deulu Soar ers y blynyddoedd cynnar, ac edrychwn ymlaen at feithrin a thyfu'r bartneriaeth i'r dyfodol.

Our Welsh Centre is the legacy of the Urdd National Eisteddfod held at Merthyr Tydfil in 1987. The Centre was established in the old vestry at Soar Chapel in 1991, and the Merthyr Tydfil Language Initiative developed a plan to transform the Chapel into a community theatre and to renovate the old Welsh Centre to be a home for all the Welsh partners in the area.

Theatr Soar opened its doors in February 2011 with a performance of *Les Misérables* by Ysgol Rhydywaun. Our aim is to provide a voice and a platform for our community in order to increase confidence and encourage ownership of the arts, the Welsh language and Theatr Soar.

It is an honour to work in partnership with Theatr Genedlaethol Cymru, Criw Brwd and The Other Room to realise the dream of Gwawr Loader, one of Soar's 'children'. Gwawr, one of the Criw Brwd team, has been a part of the Soar family since the early days, and we look forward to nurturing and developing the partnership in the future.



Stori yw ***Pryd Mae'r Haf?*** am dri pherson ifanc yn eu harddegau – Christie, Luke a Julie – yng nghymoedd y de ar ddiwedd yr 1980au. Mae Christie a Luke, sy'n ffrindiau gorau, wrth eu boddau'n gwersylla yn y Pant, i lawr yr heol o'u cartrefi. Mae Luke yn eofn ac yn llawn syniadau, ond mae Christie yn deip mwy sensitif ac artistig. Mae e'n ceisio magu plwc i ofyn i Julie Bridges fynd mas gydag e, ar ôl methiant ymdrechion Luke i ofyn iddi ar ei ran. Wrth i Christie a Julie agosáu at ei gilydd, mae Luke yn mynd yn fwy bregus, ac mae ei berthynas â'i dad yn chwalu. Mae Luke yn ymuno â'r fyddin er mwyn dianc, a Christie a Julie'n aros adref. Pan ddaw Luke yn ei ôl, mae e'n gwbl wahanol ac mae arno wir angen ffrind. A fydd y cyfeillgarwch rhwng Luke a Christie'n goroesi?

***Pryd Mae'r Haf?*** is the coming-of-age story of three teenagers – Christie, Luke and Julie – in the south Wales valleys in the late 1980s. Best friends Christie and Luke love camping out in the Pant, down the road from their homes. Cocky Luke is full of ideas, and Christie is a more sensitive, artistic type. He's trying to pluck up courage to ask Julie Bridges out on a date after Luke's failed efforts to ask her out on his behalf. As Christie and Julie become closer, Luke becomes more vulnerable and his relationship with his father breaks down. Luke joins the army in order to escape and Christie and Julie stay at home. When Luke returns, he has changed a great deal and is desperately in need of a friend. Will Luke and Christie's friendship survive?



Llun / Image: Miryam Rose Photography

# CAST

**Aron Cynan** Luke

**Ella Peel** Julie

**Cellan Wyn** Christie

# TÎM CREADIGOL A CHYNHYRCHU
# CREATIVE AND PRODUCTION TEAM

Awdur / Writer
**Chloë Moss**

Awdur y Trosiad / Translated by
**Gwawr Loader**

Cyfarwyddwr / Director
**Sion Pritchard**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Assistant Director
**Elin Phillips**

Uwch Gynhyrchydd / Executive Producer
**Rhian A. Davies**

Cynllunydd Set a Gwisgoedd
Set and Costume Designer
**Luned Gwawr Evans**

Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain
Composer and Sound Designer
**Tic Ashfield**

Cynllunydd Goleuo / Lighting Designer
**Elanor Higgins**

Cyfarwyddwr Corfforol / Movement Director
**Eddie Ladd**

Cyfarwyddwr Llais / Voice Director
**Nia Lynn**

Rheolwr Cynhyrchu
Production Manager
**Dyfan Rhys**

Dirprwy Reolwr Llwyfan
Deputy Stage Manager
**Ffion Rebecca Evans**

Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Assistant Stage Manager
**Cerys John**

Rheolwr Llwyfan Technegol
Technical Stage Manager
**Dan Jones**

Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain
British Sign Language Interpreter
**Cathryn McShane**

Cynhyrchwyr / Producers
**Fflur Thomas**
**Gwawr Loader**
**Elin Mannion**

Marchnata / Marketing
**Lowri Johnston**

Adeiladwyr y Set / Set Construction
**Telgwen**

Lleoliad / Location
**Canolfan S4C, Yr Egin**

Cerddoriaeth / Music
**The Tra La La Song, Mark Barkan and Ritchie Adams**
**Fools Gold, The Stone Roses**
**Iawn, Pop Negatif Wastad**



# FFRYDIO BYW / LIVE STREAM

Adnoddau / Resources
**Tinopolis**

Graffeg / Graphics
**Bethan John**

Golygu / Editing
**Iwan Rees**

Goleuo / Lighting
**Rob Jones**

Peiriannwyr / Engineers
**Ieuan Wyn**
**Chris Beynon**

Camerau / Cameras
**Owen Hughes**
**Joe Davies**
**Steffan O Griffiths**

Sain / Sound
**Bradey Lewis**
**Shaun Moseley**

Rheolwr Cynhyrchu / Production Manager
**Sioned Eleri**

Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production
**Mark James**

Cynhyrchydd/Cyfarwyddwr
Producer/Director
**Emyr Penlan**



Llun ymarferion / Rehearsal image: Celf Calon

## THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Cydlynydd Datblygu Creadigol /
Creative Development Co-ordinator
**Sarah Bickerton**

Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production
**Angharad Mair Davies**

Cynhyrchydd Gweithredol
Executive Producer
**Rhian A. Davies**

Swyddog Technegol / Technical Officer
**Ffen Evans**

Cyfarwyddwr Artistig / Artistic Director
**Arwel Gruffydd**

Rheolwr Cyllid / Finance Manager
**Meinir James**

Cyfarwyddwr Gweithredol
Executive Director
**Angharad Jones Leefe**

Swyddog Gweinyddiaeth a Chyllid
Administration and Finance Officer
**Nesta Jones**

Rheolwr Cynhyrchu Cwmni
Company Production Manager
**Dyfan Rhys**

Cynorthwyydd Datblygu Creadigol
Creative Development Assistant
**Gavin Richards**

Intern Codi Arian / Fundraising Intern
**Macx Roche**

Cynhyrchydd / Producer
**Nia Wyn Skyrme**

Cynhyrchydd / Producer
**Fflur Thomas**

Swyddog Marchnata / Marketing Officer
**Carys Tudor**

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
Marketing and Communications Manager
**Ceri Williams**

Cydlynydd Cyfranogi
Participation Co-ordinator
**Sian Elin Williams**

Bwrdd Ymddiriedolwyr / Board of Trustees
**Efa Gruffudd Jones** (Cadeirydd / Chair)
**Nia Edwards-Behi**
**Jacob Dafydd Ellis**
**Siôn Fôn**
**Arwel Gruffydd**
**Elwyn Jones**
**W. Gwyn Jones**
**Fiona Phillips**
**Catherine Rees**
**Rhys Miles Thomas**
**Gwyn Williams**
**Meilir Rhys Williams**

## CRIW BRWD

**Gwawr Loader**
**Elin Phillips**



## DIOLCHIADAU / THANKS

Chloë Moss, Tim Price, Mel Kenyon, Emma Magnus, Alun Saunders, Sharon Morgan, Huw Blainey, Lis McLean, Emma Hickey, Dan Jones, Bizzy Day, George Soave, Izzy Rabey, Betsan Llwyd, Simon Harries, Lee Lyford, David Wilson, Gareth Bale, Eiry Thomas, Catrin Rogers, Matthew Bulgo, Catherine Paskell, Dafydd James, Glesni Price-Jones, Emily John, Gruff Harries, Tomos West, Mali Ann Rees, Aled Bidder, Aaron William-Davies, Mabli Jên Eustace, Cadi Lane, Matt Jones, Maggie Dunning, Siân Jones a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru / Royal Welsh College of Music and Drama, Helen Prosser, Macsen Ifan, Roger Williams.



Llun ymarferion / Rehearsal image: Celf Calon

# BYWGRAFFIADAU
# BIOGRAPHIES



Luke **Aron Cynan**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:**
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd
Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

**Gwaith theatr yn cynnwys / Theatre work includes:**
*Albatross*, *Hedda Gabler*, *Between Eternity and Time*, *The Glass Menagerie* (Cwmni Richard Burton Company).



Julie **Ella Peel**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:**
Coleg Llanymddyfri / Llandovery College;
Y Brifysgol Agored / The Open University

**Gwaith ffilm a theledu yn cynnwys**
**Film and television work includes:**
*Pobol y Cwm*, *Y Streic a Fi*, *Parch*, *35 Diwrnod* (S4C); *Y Gwyll | Hinterland* (S4C + BBC); *Ordinary Lies*, *Doctors*, *The Trial of Christine Keeler* (BBC); *Code of Silence* (Picture Perfect



Christie **Cellan Wyn**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:**
Arts Ed, Llundain / London

**Gwaith theatr yn cynnwys / Theatre work includes:**
*Pwy 'Sgrifennodd Honna?* (Theatr Genedlaethol Cymru); *Bachu* (Melangell Dolma, Theatr Genedlaethol Cymru + Theatr Clwyd).

**Gwaith ffilm a theledu yn cynnwys**
**Film and television work includes:**
*Caerdydd*, *2 Dŷ a Ni* (S4C).



Awdur / Writer
**Chloë Moss**

Mae Chloë Moss yn adnabyddus fel dramodydd a sgriptiwr. Enillodd ei drama arobryn This Wide Night (Clean Break, Soho, 2008) wobr glodfawr Susan Smith Blackburn, ac yn ddiweddarach cynhyrchwyd hi ar Broadway gydag Edie Falco yn y cast. Mae Chloë wedi ysgrifennu nifer fawr o ddramâu eraill, yn cynnwys *The Gatekeeper* (Royal Exchange Theatre, 2012), *Fatal Light* (Soho Theatre, 2010 + 2011), *Catch* (Royal Court, 2006) a *How Love is Spelt* (Bush Theatre, 2004, + New York's Summer Play Festival, 2005). Ar hyn o bryd mae hi dan gomisiwn i theatrau'r Royal Court, Headlong a Soho. Mae Chloë hefyd wedi ysgrifennu'n eang ar gyfer y teledu. Yn fwyaf diweddar, ysgrifennodd ar gyfer *Six Wives* (BBC 1) a *Dickensian* (Red Planet Pictures), ac mae hi hefyd wedi ysgrifennu penodau ar gyfer *New Tricks*, *The Smoke for Kudos*, a *Prisoners' Wives* (BBC1) a *The Secret Diary of a Call Girl* gyda Tiger Aspect. Yn ogystal, ysgrifennodd ddrama unigol ar gyfer Warp Films a Sky Arts, a chyfres wreiddiol, *Switch*, ar y cyd â Tim Price, ar gyfer Touchpaper / ITV2.

Chloë Moss is an accomplished playwright and screenwriter. Her celebrated play *This Wide Night* (Clean Break, Soho, 2008) won the prestigious Susan Smith Blackburn prize and was subsequently produced on Broadway, starring Edie Falco. Chloë has written numerous other plays including *The Gatekeeper* (Royal Exchange Theatre, 2012), *Fatal Light* (Soho Theatre, 2010 + 2011), *Catch* (Royal Court, 2006) and *How Love is Spelt* (Bush Theatre, 2004 + New York's Summer Play Festival, 2005). She is currently under commission to the Royal Court, Headlong and Soho theatre. Chloë has also written extensively for television. Most recently she has written for *Six Wives* for BBC One and *Dickensian* for Red Planet Pictures, and has written episodes for BBC One's *New Tricks*, *The Smoke for Kudos*, and *Prisoners' Wives* and *The Secret Diary of a Call Girl* with Tiger Aspect. She has also written Care, a single drama for Warp Films and Sky Arts, and an original series, *Switch*, co-written with Tim Price, for Touchpaper / ITV2.

Awdur y Trosiad
Translator
**Gwawr Loader**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Prifysgol Aberystwyth a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Aberystwyth University and the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

Mae Gwawr – sy'n dod yn wreiddiol o Fynwent y Crynwyr ger Merthyr Tudful – yn un o sefydlwyr Criw Brwd ac yn actores broffesiynol ers deng mlynedd. Mae hi wedi perfformio gyda nifer o gwmnïau theatr gan gynnwys National Theatre Wales, Theatr Clwyd, Theatr Sherman, New Vic Theatre a llawer mwy. Yn 2019 hi oedd cynhyrchydd *Yn Ei Blodau*, cynhyrchiad cyntaf Criw Brwd ar gyfer Theatr y Sherman, a bu'n gweithio fel cyd-gynhyrchydd ar *Pryd Mae'r Haf?* y llynedd. Cyfieithodd ddrama glywedol Theatr Na NÓg, *Arandora Star*, i'r Gymraeg yn 2020. Yn ddiweddar, bu'n lleisio'r gyfres *Young, Welsh and Bossin' It* (BBC Three) ac yn ffilmio *Craith / Hidden* (S4C / BBC Wales / BBC Four).

Gwawr – who originally hails from Quakers Yard near Merthyr Tydfil – is one of Criw Brwd's founders and has worked professionally as an actress for 10 years. She has performed with several theatre companies, including National Theatre Wales, Theatr Clwyd, Sherman Theatre, New Vic Theatre and many more. In 2019 she was the producer for *Yn Ei Blodau*, Criw Brwd's first production for Sherman Theatre, and last year she worked as co-producer on *Pryd Mae'r Haf?*. She translated *Arandora Star*, Theatr Na NÓg's audio play, *Arandora Star*, into Welsh in 2020. Recently she has been narrating the series *Young, Welsh and Bossin' It* (BBC Three) and filming *Craith / Hidden* (S4C / BBC Wales / BBC Four).





Lluniau ymarferion / Rehearsal images: Celf Calon



## Cyfarwyddwr / Director
## **Sion Pritchard**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

Ers iddo raddio, mae Sion – a fagwyd yn Llanystumdwy, Eifionydd – wedi gweithio fel actor gyda chwmnïau ledled Cymru a'r DU, gan gynnwys National Theatre Wales, Dirty Protest, Hull Truck, Bristol Old Vic, Bara Caws, Bath Theatre Royal a Theatr Genedlaethol Cymru. Bu'n artist cyswllt i Clwyd Theatr Cymru, gan ymddangos mewn dros 20 o gynyrchiadau yn y lleoliad ac ar daith. Mae Sion yn wyneb cyfarwydd i gynulleidfaoedd teledu Cymru gan iddo ymddangos mewn nifer o raglenni gan gynnwys *Caerdydd*, *Rybish*, *Craith* a *Tourist Trap*. Ar ôl cael cyfle i gyfarwyddo nifer o nosweithiau i gwmnïau fel Dirty Protest a Critical Ambition, aeth ymlaen i gyfarwyddo'r sioe deuluol *Penblwydd Poenus Pete* gan Gary Owen ar gyfer Theatr Iolo yn 2019. *Pryd Mae'r Haf?* yw ail gynhyrchiad llawn Sion ar gyfer y llwyfan, ac mae'n ddiolchgar iawn i Criw Brwd a Theatr Genedlaethol Cymru am y cyfle.

Since graduating, Sion – who was brought up in Llanystumdwy, Eifionydd – has worked as an actor with various companies throughout Wales and the UK, including National Theatre Wales, Dirty Protest, Hull Truck, Bristol Old Vic, Bara Caws, Bath Theatre Royal and Theatr Genedlaethol Cymru. He has been an associate artist at Clwyd Theatr Cymru, appearing in over 20 productions at the venue and on tour. Sion is a familiar face to Welsh television audiences, having appeared in several programmes including *Caerdydd*, *Rybish*, *Craith* and *Tourist Trap*. Having had experience of producing several performances for companies such as Dirty Protest and Critical Ambition, he went on to produce the family show *Penblwydd Poenus Pete* by Gary Owen for Theatr Iolo yn 2019. *Pryd Mae'r Haf?* is Sion's second full production for the stage, and he is very grateful to Criw Brwd and Theatr Genedlaethol Cymru for the opportunity.

## Cynllunydd Set a Gwisgoedd
## Set and Costume Designer
## **Luned Gwawr Evans**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Cynllunio ar gyfer Perfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Design for Performance at Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

**Gwaith theatr yn cynnwys**
**Theatre work includes:**

**Cynllunydd Set a Gwisgoedd**
**Set and Costume Designer:** *Llygaden yr Eira* (Theatr Genedlaethol Cymru / Theatr Iolo); *Anarchist Mobile Library*, *Perfect* (Tessa Bide Productions); *X*, *Milwr yn y Meddwl*, *Hollti*, *Rhith Gân* (Theatr Genedlaethol Cymru); *Penblwydd Poenus Pete* (Theatr Iolo); *La Bohème* (Opera Up Close); *Into the Woods* (UWTSD); *Just Jump* (Theatr na nÓg); *Room to Escape* (National Theatre Wales); *Tu Fewn Tu Fas* (Cwmni Theatr Arad Goch).

**Gwaith ffilm a theledu yn cynnwys**
**Film and television work includes:**
*The Offenders* (Big Talk Productions), *Lonely Assassins* (Dr Who, Maze Theory); *Helfa'r Heli* (S4C); *Leonard's Neighbours*, *Ludo* (BBC, It's My Shout); *The Offenders* (BBC); *Lonely Assassins* (Maze Theory).

**Cynorthwyydd Dylunio / Design Assistant:** *Romeo and Julie* (National Theatre + Theatr y Sherman / Sherman Theatre, Taith y DU / UK Tour); *Oliver* (Leeds Playhouse, UK Tour); *Y Cylch Sialc* (Theatr Genedlaethol Cymru); *A Midsummer Night's Dream* (Regent's Park Theatre); *Pinocchio*, *A Christmas Carol* (Citz Theatre); *Snow White* (The Wrong Crowd); *Nawr yr Arwr / Now the Hero* (14-18-NOW); *Winnie the Witch* (Birmingham Rep Theatre).

**Gwobrau / Awards:** Hyfforddai Gorau Adran Gelf / Best Arts Department Trainee – BBC, It's My Shout; Gwobr Goffa J O Francis Memorial Award – Cymry Llundain / London Welsh; Gwobr Cymdeithas Theatr Newydd Caerdydd / The Cardiff New Theatre Society Award.

## Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain
## Composer and Sound Designer
## **Tic Ashfield**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

**Gwaith theatr a dawns yn cynnwys Theatre and Dance work includes:** *Tir Sir Gâr* (Theatr Genedlaethol Cymru); *A Number, All But Gone, The Awkward Years, American Nightmare, The Story, Hela* (The Other Room); *The Gathering*, {150}, *The Tide Whisperer*, *For As Long As The Heart Beats*, *Storm III* (National Theatre Wales); *On Bear Ridge* (National Theatre Wales a / and The Royal Court); *Dear To Me / Annwyl i mi* (Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru / National Dance Company Wales); *The Invisible Woman* (Alisa Jenkins); *Peeling* (Taking Flight Theatre); *Cracked* (Emily Hinshelwood); *Blue* (Chippy Lane Productions); *Bottom* (Willy Hudson); *Richard III, Henry VI, Romeo & Juliet* (Omidaze Productions); *Saturday Night Forever* (Joio); *Momentos of Leaving, Moment(o)s* (Elaine Paton); *Hard Times* (Lighthouse Theatre); *Cold Rolling* (Ballet Cymru); *My People* (Gwyn Emberton Dance).

**Gwaith ffilm a theledu yn cynnwys Film and television work includes:** *Pili Pala*, *Galesa* (S4C); *Craith | Hidden*, *Y Gwyll | Hinterland* (S4C + BBC); *Andrew Marr: Great Scots* (BBC2) *Gohebwyr: Geraint Talfan Davies | The Girl In The Diary* (S4C + BBC).

Mae Tic Ashfield yn Gyfansoddwr a Chynllunydd Sain sydd wedi'i henwebu ddwywaith a'i gwobrwyo gan BAFTA Cymru. / Tic Ashfield is a twice-nominated BAFTA Cymru award-winning Composer and Sound Designer.

## Cynllunydd Goleuo
## Lighting Designer
## **Elanor Higgins**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

**Gwaith theatr yn cynnwys / Theatre work includes:** *Rhondda Rips It Up!* (Opera Cenedlaethol Cymru / Welsh National Opera); *Red* (Canolfan Mileniwm Cymru / Wales Millennium Centre + Likely Story Theatre); *2023* (Illumination Theatre); *Eye of the Storm*, *The White Feather*, *Ghost of Morfa Colliery*, *Halt* (Theatr na nÓg); *Merched Caerdydd / Nos Sadwrn o Hyd, Hollti*, *Chwalfa*, *Y Negesydd, Pridd, Dyled Eileen, Dau Un Un Dim, Yn y Trên, Y Gofalwr* (Theatr Genedlaethol Cymru); *Sgint* (Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr y Sherman / Sherman Theatre); *StickMan*, *Tiddler and Other Terrific Tales, The Scarecrows' Wedding, Private Peaceful* (Scamp Theatre); *A Good Clean Heart* (Neontopia); *Saer y Sêr, Drych* (Cwmni'r Frân Wen); *Difa* (Cwmni Theatr Bara Caws); *This is Not a Wedding* (Gracefool Collective); *The Girl with the Incredibly Long Hair / Y Ferch gyda'r Gwallt Hynod Hir* (We Made This); *Fidelio* (Opra Cymru); *Henry VI, Richard III* (Omidaze); *Lotty's War* (Taith y DU / UK Tour); *The Caucasian Chalk Circle* (Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru / National Youth Theatre of Wales); *Far From the Madding Crowd, Cariad a Gwybodaeth, Cant, The World Goes Round, Llanast* (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David).

Mae Elanor hefyd yn gweithio fel darlithydd gwadd mewn Goleuo yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd. / Elanor also works as a guest lecturer in Lighting at the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff.



## Cyfarwyddwr Corfforol
## Movement Director
## **Eddie Ladd**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Prifysgol Aberystwyth University

**Gwaith theatr yn cynnwys / Theatre work includes:** Deunaw cynhyrchiad o'i gwaith ei hun ers 1993 / Eighteen productions of her own work since 1993.

**Yn ddiweddar hefyd / Recently also:** *{150}* gan / by Marc Rees (National Theatre Wales + Theatr Genedlaethol Cymru); Nawr yr Arwr ac Agora, Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst National Eisteddfod. Aelod sylfaenol o Light, Ladd & Emberton, sydd hyd yma wedi cynhyrchu'r ddeuawd Caitlin a'r darnau safle-benodol Croesi Traeth a Disgo Distaw Owain Glyndŵr / Founder member of Light, Ladd & Emberton, who have thus far produced the duet Caitlin and the site-specific pieces Croesi Traeth and Owain Glyndŵr Silent Disco.

Mae hi hefyd wedi gweithio gyda nifer o gwmnïau fel coreograffydd, gan gynnwys Theatr Genedlaethol Cymru a Criw Brwd. / She has also worked with a number of companies as a choreographer, including Theatr Genedlaethol Cymru and Criw Brwd.

Ers dwy flynedd bu'n perfformio gydag iCoDaCo, sy'n gwmni dawns cydweithredol rhyngwladol. Daeth y prosiect i'w benllanw gyda thaith drwy Gymru fis Hydref 2020. / For the past two years, she has been performing with iCoDaCo, an international cooperative dance company. The project culminated in a tour of Wales in October 2020.

**Gwaith ffilm a theledu yn cynnwys Film and television work includes:** Fideo 9, The Slate; Co Bach ar gyfer / for Radio Cymru.

## Cyfarwyddwr Llais
## Voice Director
## **Nia Lynn**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Central School of Speech and Drama, Llundain / London (MA); Guildhall School of Music and Drama, Llundain / London (MA)

**Gwaith theatr yn cynnwys / Theatre work includes:** Olivier Nominated Production by Ballet Rambert-Goat; *King Hadley II* (Stratford East); *Night of the Iguana* (West End); *I Am Rachel Corrie* (Young Vic); *The Prime Of Miss Jean Brodie*, *The Committee, Limehouse* (The Donmar Warehouse); *Tiger Bay* (Canolfan Mileniwm Cymru / Wales Millennium Centre); *City of Glass* (Hammersmith); *Y Cylch Sialc, Hollti, Macbeth, Chwalfa, Pan Oedd y Byd yn Fach, Nansi, Y Fenyw Ddaeth o'r Môr, Mrs Reynolds a'r Cena Bach* (Theatr Genedlaethol Cymru); *The Alchemist, The Merchant of Venice, Oppenheimer, The Christmas Truce, The Taming of the Shrew, Wendy & Peter Pan, Matilda the Musical* (Royal Shakespeare Company).

**Cymorth i Artistiaid / Artist Support:** *Love's Labour's Lost, Love's Labour's Won, Wolf Hall, Bring Up the Bodies, Candide, A Mad World My Masters, As You Like It, Hamlet* (Royal Shakespeare Company).

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Assistant Director
**Elin Phillips**

**Addysg a hyfforddiant / Education and training:** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / The Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

Ers iddi raddio yn 2009, mae Elin wedi gweithio fel actores ar lwyfan i gwmnïau megis Theatr Genedlaethol Cymru, West Yorkshire Playhouse, Theatr Clwyd, Theatr y Sherman, Volcano, Raucous Theatre, Dirty Protest a Theatr Iolo. Mae ganddi brofiad eang o waith theatr, gan gynnwys gwaith Ysgrifennu Newydd, Shakespeare a gwaith dyfeisiedig.

Ffurfiwyd Criw Brwd gan Elin a Gwawr Loader yn 2017, ac fe berfformiwyd y ddrama gyntaf a gynhyrchwyd gan y cwmni theatr ifanc yma, sef *Yn Ei Blodau* a ysgrifennwyd gan Elin, yn Theatr y Sherman ym mis Tachwedd 2019. Bu Elin yn ffodus i gael ymuno â chynllun Awenau, Theatr Genedlaethol Cymru, ac mae hi'n falch iawn o'r cyfle i ehangu ei sgiliau cyfarwyddo trwy gynorthwyo Sion Pritchard ar *Pryd Mae'r Haf?*

Since graduating in 2009, Elin has worked extensively as an actor on the stage for companies such as Theatr Genedlaethol Cymru, West Yorkshire Playhouse, Theatr Clwyd, Sherman Theatre, Volcano, Dirty Protest and Theatr Iolo. She has wide experience of theatre work, including New Writing, Shakespeare and devised work.

Criw Brwd was formed by Elin and Gwawr Loader in 2017. Elin wrote her first play, *Yn Ei Blodau*, which was produced by Criw Brwd at the Sherman Theatre in November 2019. Elin has been fortunate to participate in Theatr Genedlaethol Cymru's Awenau scheme and is delighted to have an opportunity to develop her directing as Assistant Director to Sion Pritchard.


Theatr Genedlaethol Cymru

**Gallwch chi ein helpu i roi theatr Gymraeg wrth galon y genedl drwy gefnogi ein gwaith.**

**Tecstiwch THEATRGEN 5 at 70085 i roi £5**

**You can help us put Welsh-language theatre at the heart of the nation by supporting our work.**

**Text THEATRGEN 5 to 70085 to donate £5**

**DIOLCH.**






Lluniau ymarferion / Rehearsal images: Celf Calon

# CYFARWYDDIADAU GWYLIO
# DIRECTIONS FOR VIEWING

Mae ***Pryd Mae'r Haf?*** yn ffrydio'n fyw o Yr Egin, Canolfan S4C yng Nghaerfyrddin.

Byddwch wedi derbyn dolen unigryw gan TicketCo i'ch galluogi i wylio'r sioe. Bydd hon wedi cael ei anfon ar ôl i chi brynu eich tocyn. Os nad ydych wedi ei derbyn, gwiriwch eich blwch 'Junk'. Dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr ebost hwn, a chliciwch ar y ddolen i gael mynediad i'r sioe.

Nid oes modd rhannu'r ddolen gan mai dim ond ar un ddyfais mae hi'n gweithio.

Bydd y sioe ar gael i'w gwylio ar y dyddiad a'r amser a nodir yn yr ebost.

Ni fydd modd gwylio'r sioe ar ôl y dyddiad ffrydio. Mae'n ffrydio'n fyw ac ni fydd modd ei hoedi ac ailgychwyn. Bydd modd cael mynediad yn hwyr i'r sioe, ond ni ellir ei hailchwarae o'r dechrau.

Mae adran Cwestiynau a Ofynnir yn Aml ar TicketCo sy'n cynnwys manylion am beth i'w wneud os nad ydych wedi derbyn eich tocyn, neu os oes problem gyda'r ffrydio byw.

**Mwynhewch y sioe!**

***Pryd Mae'r Haf?*** is being streamed live from Yr Egin, S4C's Centre in Carmarthen.

You will have received a unique link from TicketCo to enable you to watch the show. This will be sent to you after you have purchased your ticket. If you have not received it, please check your 'Junk' box. Please follow the instructions in this email and click the link to gain entry into the show.

The link cannot be shared as it only works on one device.

The show will be available to view on the date and time noted in the email.

It will not be possible to watch the show after the streaming date. It is being streamed live and it will not be possible to pause it and re-start. It will be possible to gain late entry to the show, but you cannot go back to the beginning.

There is a Frequently Asked Questions section on TicketCo that includes details of what to do if you have not received your ticket, or if is there is a problem with the live streaming.

**Enjoy the show!**





Theatr Genedlaethol Cymru

**#PrydMaerHaf**

**@CriwBrwd / criwbrwd.co.uk** **@TheatrGenCymru / theatr.cymru**

---

Mewn cydweithrediad â The Other Room a Theatr Soar / In association with The Other Room and Theatr Soar

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn Aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru.
Theatr Genedlaethol Cymru is a Member of Arts Portfolio Wales, Arts Council of Wales.

---

Rhif cofrestru cwmni Criw Brwd Company registration number: 11101302. Rhif cofrestru cwmni Theatr Genedlaethol Cymru Company registration number: 4784488. Rhif elusen gofrestredig Theatr Genedlaethol Cymru Registered charity number: 1106032
Delwedd y clawr / Cover image: Miryam Rose | Kelly King Design. Delweddau o'r ystafell ymarfer / Images from the rehearsal room: Celf Calon Dylunio / Design: Kelly King Design